**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-827
Ein cyf/Our ref KS/02309/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

25 Awst 2018

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Gorffennaf ynghylch P-05-827 Ffyrdd o gwmpas Trago Mills / Parc Adwerthu Cyfarthfa.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal astudiaeth o lefelau'r tagfeydd ar yr A470 yng nghyffiniau Cylchfan Ffordd Abertawe. Bydd yr astudiaeth yn ystyried effaith siop newydd Trago Mills. Fel rhan o'r astudiaeth, byddwn yn cysylltu â rhanddeiliaid fel Cyngor Merthyr Tudful, sef yr Awdurdod Priffyrdd sy'n gyfrifol am y rhwydwaith ffyrdd lleol.

Bwrir ymlaen â'r atebion ffyrdd sydd wedi cael eu harfarnu, sy'n cynnig y gwerth gorau ac y barnwyd bod eu hangen, hynny yn unol â phrosesau Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'r gwaith cynllunio cyn agor siop Trago Mills ar 21 Ebrill, gofynnwyd am gyfraniad nifer o asiantaethau oherwydd nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd. Rydym wedi gosod arwyddion negeseuon dros dro ac wedi defnyddio arwyddion negeseuon newidiol i roi gwybod i yrwyr am unrhyw oedi a ragwelir ar y darn hwn o'r A470. Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth am y traffig hefyd ar wefan Traffig Cymru a'r cyfryngau cymdeithasol i helpu gyrwyr i gynllunio'u teithiau. Rydym wedi estyn gwasanaeth y Swyddogion Traffig ac mae'r heddlu wedi bod yn bresennol yn yr ardal i helpu i reoli llif y traffig ar adegau prysur.

Gwaetha'r modd, ni chafwyd digon o amser i baratoi cynllun Parcio a Theithio cyn agor y siop ac rwy'n gwerthfawrogi'r pryderon a fynegwyd. Ond gallaf eich sicrhau bod fy swyddogion yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i edrych ar atebion tymor byr a chanolig ymarferol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wrthi'n ymchwilio i'r darn o'r A470 sydd o gwmpas Trago Mills ac yn ei arfarnu yn unol â Chanllaw Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG). Gan fod patrymau a gofynion y traffig wedi'u hansefydlogi ers agor siop Trago Mills, rydym wedi atal yr astudiaeth am y tro nes bod amodau cyffredin yn dychwelyd. Disgwylir i'r cyfnod 'sefydlogi' hwn bara rhyw 6 mis. Bryd hynny, byddwn yn ailddechrau'r astudiaeth trwy gloriannu'r tueddiadau a ragwelir ar sail y ffigurau hysbys ers agor Trago Mills. Bydd canlyniadau'r profion hyn yn ein helpu i benderfynu pa atebion tymor hir fyddai fwyaf priodol.

Byddwn yn gwybod pa gynlluniau trafnidiaeth fydd yn cael eu defnyddio i ddatrys y broblem tagfeydd ar yr A470 ar ôl cynnal yr astudiaethau cam 2 ar hyd y coridor. Disgwylir i'r gwaith Cam 2 ddod i ben yn gynnar yn 2019. Caiff mesurau tymor byr i ganolig eu cynnal yn y cyfamser.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport